Bitesize

# Rheoli project ac amser

Mae pob project angen strategaeth glir ac mae'n bwysig deall sut i reoli amser yn effeithiol.

Mae 'na ddwy ffordd o baratoi project. Y gynta yw cynllunio’n iawn, a’r ail yw mynd i banig llwyr. Felly, 'cynllunio' i ddechrau.

Gofynna i ti dy hun beth wyt ti’n ceisio ei gyflawni. Hynny yw, beth yw dy amcanion di?

Rhywbeth rwyt ti'n gwybod gelli di ei gyflawni yw amcan. Elli di ddim yn hawdd newid y byd, ond gelli di annog pobl i beidio â gwastraffu dŵr yn y tŷ.

Dylid cwblhau pob amcan erbyn dyddiad penodol. A chofia fesur ei lwyddiant - neu ddaw'r project byth i ben.

Rhanna'r prif amcan yn dargedau bach. Meddylia am y targedau 'ma fel cerrig milltir ar y ffordd i’r llinell derfyn.

Fel targed cyntaf, gwna bobl yn ymwybodol o faint o ddŵr maen nhw'n ei ddefnyddio. A’r ail darged bydd eu perswadio i wneud dau newid bach i leihau faint o ddŵr maen nhw'n ei ddefnyddio bob dydd.

I greu amserlen realistig ar gyfer y targedau, noda ddyddiadau penodol ar gyfer gorffen y gwaith.

Cofia gynnwys bach o amser ychwanegol hefyd. Dwyt ti byth yn gwybod beth sy'n mynd i fynd o'i le, oni bai dy fod ti'n gallu rhagweld i'r dyfodol – ac os felly, byddi di'n rhy brysur yn prynu tocynnau loteri mae'n siwr.

Felly, mae'r targedau a'r amserlen yn eu lle, ond beth am yr adnoddau i'w cyflawni nhw? Hynny yw, oes gyda ti'r amser, yr arian, yr offer a phobl gyda'r sgilau cywir?

Beth os wyt ti eisiau cynhyrchu perfformiad gorau'r byd o *The Sound of Music*, ond y cwbwl sydd gyda ti yw gitâr tila a chyw iâr rwber. Efallai dylet ti ail-ystyried felly.

Hefyd, defnyddia'r adnoddau'n gall.

Os wyt ti'n cynhyrchu drama, y gwisgoedd a'r lleoliad sy'n cymryd blaenoriaeth, nid prynu pizza i'r actorion.

Nesaf: sut wyt ti am rannu cyfrifoldebau ymysg y tîm? Yw rôl pawb yn addas ar gyfer eu gallu? Pwy sydd orau am drefnu amserlenni? Pwy sy'n dda am gyfathrebu?

 © Hawlfraint BBC

A beth am y risgiau? Dyw cynllun ddim yn gyflawn heb asesiad risg trylwyr.

Mae'n rhy hwyr sylweddoli fod rhywbeth yn beryglus ar ôl iddo ddigwydd.

Cofia ystyried diogelwch y cyhoedd fyddi di'n gweithio gyda nhw, a diogelwch dy dîm dy hun.

Os wyt ti'n gwneud cyflwyniad ar ddiogelwch tân, oes wir angen cyflogi taflwr fflamau?

Gwna'n siŵr fod strategaeth wrth gefn, er mwyn gallu ymateb os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Wrth gwrs, mae 'na ddull arall hefyd, sef mynd i banig llwyr. Ond bydd dal angen bach o waith cynllunio, fel sicrhau bod o leiaf un aelod o'r tîm wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.


© Hawlfraint BBC